

Bendithion

Darllen: Salm 145:1–2

Thema ganolog y Salm hon yw mawredd Duw a'i ofal dros bob creadur. Gellir crynhoi'r moliant personol, uniongyrchol i'r dair adnod gyntaf, ond mae gweddill y Salm yn annog eraill i ymuno yn y moliant. Anogaethau anuniongyrchol a geir yma – ‘Dyrchafaf di, fy Nuw, O Frenin, a bendithiaf dy enw byth bythoedd’ (Salm 145:1), ac ‘Y mae dy holl waith yn dy foli, Arglwydd, a'th saint yn dy fendithio’ (10). Ond fe ddilyni'r pob gorchymyn i addoli gan ddisgrifiad o Dduw a'i waith – ‘Graslon a thrugarog yw'r Arglwydd, araf i ddigio, a llawn ffyddlondeb’ (8). Ac mae'n mynd ymlaen, ‘Fe gynnal yr Arglwydd bawb sy'n syrthio, a chodi pawb sydd wedi eu darostwng’ (14). Ar ddechrau'r Salm, unigolyn sy'n cynnal y moliant; ond erbyn y diwedd bydd ‘pob creadur yn bendithio’i enw sanctaidd’ (21). Mae'r Salm yn cloi gyda'r geiriau ‘byth bythoedd’ (21), ac yn ôl copi o'r Salm a geir ymhlith Sgroliâu'r Môr Marw gwelir y geiriau hyn ar ôl pob adnod, ‘Bendigedig fyddo'r Arglwydd byth bythoedd’.

Gellir tybio bod y Salm hon yn cael ei defnyddio yn ystod Gŵyl y Flwyddyn Newydd, pan orseddid Duw fel brenin, ‘Dyrchafaf di, fy Nuw, O Frenin, a bendithiaf dy enw byth bythoedd’ (1). Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod cenedlaeth ar ôl cenedlaeth wedi moli a dyrchafu Duw, a bod yr elfen hon yn bwysig mewn addoliad cyhoeddus. Roedd galw i gof hanes y genedl yn elfen hanfodol o'r addoliad, a cheir disgrifiadau byw o weithgaredd Duw dros y cenedlaethau – ei weithredoedd nerthol (4), ei fawredd a'i ryfeddodau (5), a grym ei weithredoedd ofnadwy (6). Bwriad yr awdur wrth gynnwys a phentyrru'r agweddau hyn ar waith Duw yw dangos ei waith yng nghreadigaeth y byd ac yn hanes ei bobl. Yn yr holl eangderau hyn, hawdd iawn fyddai meddwl am Dduw pell. Ond mae'r Salmydd am i'r bobl wybod mai ‘Graslon a thrugarog yw'r Arglwydd, araf i ddigio, a llawn ffyddlondeb. Y mae'r Arglwydd yn dda wrth bawb, ac y mae ei drugaredd tuag at ei holl waith’ (8–9). Er bod Duw yn Dduw'r

Greadigaeth, gwir gyfrinach ei fawredd yw ei raslonrwydd, ei drugaredd a'i ffyddlondeb tuag at ei bobl.

Ond ni chyfyngir y moliant i genedl Israel yn unig gan fod holl waith Duw yn ei foli, a 'bydd pob creadur yn bendithio' i enw sanctaidd byth bythoedd' (21). Mae adnodau 10–20 yn nodi'r mawl cyffredinol hwn. Unwaith eto, mae'r Salmydd yn clodfori Duw yn ei nerth (11), ei weithredoedd nerthol (12), ei ffyddlondeb (13) a'i drugaredd (13). Mae'n cynnal, yn codi, yn diwallu, mae'n agos at bawb ac yn gofalu am bawb sy'n ei garu; ac mae'r Salmydd yn crynhoi'r cyfan trwy ein hatgoffa o adnod gyntaf y Salm, gan ychwanegu mai bwriad y cyfan yw cael 'pob creadur' i fendithio' i enw sanctaidd.

Dro ar ôl tro, mae'r Salm yn datgan fod Duw, y Brenin, yn gofalu am bopeth y mae wedi'i greu, ac yn cyhoeddi bod pob creadur gyda'i gilydd i'w garu a'i fendithio. Yng nghorff y Salm, daw teyrnasiad Duw'r Brenin, ac ysblander ei deyrnas, yn amlwg. A daw hyn i'w lawn dwf yn nysgeidiaeth y Testament Newydd.

Myfyrdod pellach:

Pa fendithion ddaw yn amlwg yng ngeiriau'r Salm hon?

Beth yw eich syniad chi o deyrnas neu deyrnasiad Duw?